| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEHEFIN 2012** |
| **TEITL:** | **DIWYGIO TREFN PENODI MODURDAI I GYNNAL PROFION CERBYDAU TACSI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

Mae'r Cyngor yn trwyddedu oddeutu 217 o gerbydau hacni a 186 o gerbydau hurio preifat drwy'r Sir. Er mwyn cydymffurfio ag amodau'r drwydded , mae'n ofynnol i bob cerbyd gael dau archwiliad mecanyddol y flwyddyn –

- **MOT ARFEROL –** gall perchennog y cerbyd ddewis unrhyw fodurdy sy'n gymwys i gynnal y prawf

- **AIL BRAWF -** yn bresennol mae'r ail brawf yn cael ei gynnal mewn modurdy cymwys o ddewis y Cyngor; gydag un modurdy wedi ei phenodi yn y dair ardal.

Mae'r gofynion hyn wedi eu hymgorffori fel amodau trwydded, ac wedi eu mabwysiadu ym mholisi trwyddedu cerbydau tacsi'r Cyngor.
Mae'r gofynion hefyd yn seiliedig ar yr arweiniad a geir yng nghanllawiau ymarfer da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth

Yn bresennol , mae 3 modurdy sydd yn cyrraedd y gofynion perthnasol , wedi eu hawdurdodi i gynnal profion MOT a'r ail brawf mecanyddol sy'n ofynnol ar gerbydau tacsi.
Modurdy'r Cyngor sydd wedi bod yn cynnal y profion ar gyfer cerbydau ardal Meirionnydd.
Mae'r trefniant o ddewis a phenodi modurdy cymwys wedi bod yn cael ei adolygu yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor hwn , bob tair blynedd.
Yn bresennol, mae swyddogion yr uned drwyddedu yn gweinyddu'r broses o wneud apwyntiadau fel mae'r cerbydau angen prawf, ac mae'r modurdy yn gyfrifol am gynnal y profion angenrheidiol gan yrru canlyniad y prawf i'r uned drwyddedu.
Mae perchennog y cerbyd yn talu cost y prawf yn uniongyrchol i'r modurdy.

Fe gychwynnwyd ar y broses o adolygu'r trefniant presennol yn ddiweddar drwy hysbysebu yn y wasg am fynegiant o ddiddordeb gan fodurdai yn ardaloedd Arfon a Dwyfor. Gofynnwyd i fodurdai oedd yn gymwys a gyda diddordeb ymgymryd â'r gwaith i ysgrifennu i hysbysu'r Cyngor. Ni ymestynnwyd yr hysbyseb i ardal Meirionydd ar y pryd - gan fod Modurdy'r Cyngor yn parhau i gynnig y gwasanaeth i brofi ceir ar hyn o bryd

Fe dderbyniwyd llythyr yn datgan diddordeb gan 14 o fodurdai yn ardal Arfon a Dwyfor. Gellir cadarnhau fod pob un o'r modurdai a gysylltodd yn gallu darparu'r hyn oll sy'n berthnasol i drefniadau'r profion, am bris rhesymol.

Y modurdai sydd wedi cysylltu yw –

LAS Landrovers, Llandegai
Elias Garage, Bangor
Gwalia Garage, Caeathro
Garej Arwyn, Penygroes
Povey's Garage, Penygroes
Modurdy B & K Williams, Caernarfon
Modurdy Dolydd, Groeslon
Modurdy Ffrydlas, Bethesda
G&H Car and Commercial, Caernarfon
Peblig Tyre & Exhaust , Caernarfon
Hardy's, Pwllheli
Auto Mech Services, Criccieth
A&E Motors, Porthmadog
Bridge Garage, Pwllheli

## OPSIYNAU AR GYFER ADOLYGU'R DREFN BRESENNOL

Mae Canllawiau Ymarfer Da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth yn awgrymu y dylid awdurdodi mwy nag un modurdy cymwys mewn ardal ddaearyddol eang fel Gwynedd.
Gan fod cynifer a 14 modurdy wedi dangos diddordeb, fe fydd angen penderfynu'r ffordd ymlaen drwy ystyried y pwyntiau canlynol :-

- Mae'r 14 modurdy yn dod i fyny â gofynion y cytundeb -
- Dim ond amrywiaeth bychan sydd yn y costau profion cerbydau'r modurdai
- O ran tegwch i'r modurdai cymwys sydd wedi dangos diddordeb - mae'n rhaid adolygu'r sefyllfa bresennol
- Fe fyddai awdurdodi'r 14 modurdy i gynnig y profion yn caniatáu cystadleuaeth deg rhwng modurdai a mwy o ddewis i berchnogion cerbydau hacni a hurio preifat.
- A ddylid adolygu'r trefniant presennol yn ardal Meirionydd ( lle profir y cerbydau ym Modurdy'r Cyngor) a hysbysebu am fynegiant o ddiddordeb gan fodurdai yn yr ardal honno?

## ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor yn caniatáu awdurdodi y 14 modurdy cymwys sydd wedi mynegi diddordeb i gynnal profion mecanyddol ar gerbydau hacni a hurio preifat; ac yn hysbysebu am fynegiant o ddiddordeb yn yr un modd ymysg modurdai yn ardal Meirionnydd.